# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Gwynfa**

**Llanbedr**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

27/08/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Gwynfa

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Lewis Jones Care Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 6 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 13 Mehefin 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae cartref gofal Gwynfa yn darparu gofal a chymorth o safon dda i'r bobl, a hynny gan dîm o staff gofal sy'n ymrwymedig, yn eu hadnabod yn dda ac yn parchu ac yn hyrwyddo eu hawliau. Mae darparwr y gwasanaeth yn anelu at greu a chynnal awyrgylch teuluol. Mae'r bobl yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol ac yn hapus yn byw yn y cartref.

Mae'r rheolwr a'r staff gofal yn deall ac yn cefnogi anghenion y bobl ac yn eiriolwyr effeithiol ar eu cyfer. Mae'r staff gofal yn mwynhau eu gwaith ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y rheini mewn swyddi rheoli. Maent yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd ac yn cael hyfforddiant perthnasol. Mae'r unigolyn cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn effeithiol ac mae'n gofyn i'r bobl, y staff gofal a gweithwyr proffesiynol eraill am adborth ar ansawdd y gofal a ddarperir. O ganlyniad, mae ganddo wybodaeth fanwl am y ffordd y mae'r gwasanaeth yn gweithredu er mwyn cynllunio'n llwyddiannus ar gyfer ei ddatblygu yn y dyfodol.

Mae'r cartref yn groesawgar, yn lân, wedi'i ddodrefnu'n addas ac wedi'i addurno'n ddeniadol yn unol â dymuniadau'r bobl. Mae darparwr y gwasanaeth yn sicrhau y caiff gwiriadau iechyd a diogelwch eu cwblhau ac yr ymdrinnir â materion cynnal a chadw yn ddi-oed.

## Llesiant

Mae'r bobl yn gyfforddus yn y cartref am eu bod wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff gofal. Maent yn siarad â nhw'n hawdd am bethau sy'n codi o ddydd i ddydd; yr hyn maent yn ei fwynhau a'r hyn sy'n anodd iddynt. Maent yn hyderus wrth rannu'r ffordd y maent yn teimlo, am eu bod yn gwybod fod y staff gofal yno i roi cymorth iddynt a'u rhoi ar ben ffordd. Mae gan y cartref gydberthnasau cadarnhaol â'r teuluoedd ac mae gwasanaeth eirioli annibynnol ar gael i'r bobl. Caiff safbwyntiau a barn y bobl eu casglu wrth ryngweithio â nhw o ddydd i ddydd neu yn ystod sesiynau â'u gweithwyr allweddol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn siarad â'r bobl yn ystod ei ymweliadau ac yn cynnwys eu safbwyntiau yng nghofnodion yr ymweliadau hyn. Mae'r gwasanaeth yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg gan fod y rhan fwyaf o'r staff gofal a'r rheolwr yn siarad Cymraeg yn rhugl, felly gall y bobl gael gofal gan ddefnyddio eu mamiaith.

Mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gael i'r bobl.  Mae'r staff gofal yn helpu'r bobl i drefnu a mynychu apwyntiadau gyda gwasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion llesiant corfforol a'u hanghenion iechyd emosiynol. Maent yn gweithio'n agos iawn gydag asiantaethau i sicrhau bod cymorth ar gyfer materion penodol a chymhleth yn gyson ac yn cael ei lywio gan weithwyr proffesiynol sy'n meddu ar gymwysterau priodol. Mae'r bobl yn cael eu hannog i fwyta deiet iach a chymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol megis mynd i'r gampfa a mynd am dro.

Mae gan y bobl fywydau boddhaus. Maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau y maent yn eu mwynhau a chaiff yr hyn sy'n bwysig iddynt ei barchu. Gall y bobl wneud pethau sy'n bwysig iddynt gan gynnwys cwrdd â'u teulu a chymdeithasu â ffrindiau. Maent yn mynychu grwpiau cymunedol megis clybiau cerdded ac mae'r cynllunwyr gweithgareddau wythnosol yn dangos bod y staff gofal yn annog y bobl i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau. Mae’r lefelau staffio yn galluogi’r staff gofal i dreulio amser gyda’r bobl ar sail un i un wrth iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol. Mae'r bobl yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus lle y bo'n briodol, ac mae tri cherbyd ar gael er mwyn sicrhau y gall y bobl wneud y pethau sy'n bwysig iddynt pan fyddant am eu gwneud.

Mae'r bobl yn derbyn gofal diogel a magwrus am fod systemau da ar waith i amddiffyn y bobl rhag niwed a chamdriniaeth. Mae pob aelod o'r staff gofal yn cwblhau hyfforddiant diogelu ac mae systemau effeithiol ar waith i sicrhau y caiff ei ddiweddaru'n rheolaidd. Mae polisïau a gweithdrefnau diogelu effeithiol ar waith sy'n helpu'r staff gofal i amddiffyn y bobl rhag niwed. Mae'r rheolwr yn rhoi gwybod i'r awdurdod lleol am faterion diogelu pan fo angen.

Mae'r bobl yn byw mewn llety sy'n addas ar gyfer eu hanghenion ac yn eu helpu i sicrhau llesiant. Mae'r cartref yn groesawgar ac yn lân ac mae ystafelloedd y bobl wedi'u personoli yn unol â'u chwaeth. Mae digon o le i'r bobl gymdeithasu neu dreulio amser ar eu pen eu

hunain. Caiff gwiriadau iechyd a diogelwch eu cwblhau'n rheolaidd, a chaiff atgyweiriadau eu nodi a'u cwblhau mewn modd amserol.

## Gofal a Chymorth

Mae'r tîm o staff gofal yn sefydlog ac yn adnabod y bobl yn dda iawn, ac maent wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â nhw. Gwelsom y rheolwr a'r staff gofal yn ymgysylltu â'r bobl gan ddangos cynhesrwydd, parch a hiwmor ysgafn. Gwelsom aelodau o'r staff gofal yn treulio amser gyda'r bobl, yn gwrando arnynt, ac yn rhoi cymorth iddynt wrth iddynt ymgymryd â'u gweithgareddau o ddydd i ddydd. Caiff y bobl gymorth i wneud y pethau y maent yn eu mwynhau, sy'n gwella eu hymdeimlad o lesiant. Mae'r staff gofal yn ymwybodol o ddiddordebau'r bobl a chânt eu cofnodi yn eu cynlluniau personol. Mae digon o staff gofal ar ddyletswydd i sicrhau y gall y bobl fynd allan yn unigol.

Mae'r rheolwyr a'r staff gofal yn cydnabod natur unigryw'r bobl ac yn gweithio gyda'r bobl i hybu eu hyder a'u hunan-barch. Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r cynlluniau personol wedi cael eu gwella er mwyn darparu rhagor o wybodaeth i'r staff gofal. Mae gan y bobl gynlluniau personol unigol sy'n cynnwys asesiadau risg a chynlluniau cefnogi ymddygiad yn gadarnhaol. Maent yn rhoi canllawiau clir ac adeiladol i'r staff gofal am anghenion y bobl, eu dewisiadau a'r hyn yr hoffent ei gyflawni. Mae'r bobl yn gwneud cynnydd tuag at eu canlyniadau dymunol, ac mae'r rheolwr wedi datblygu system i ddangos tystiolaeth well o'u cyflawniadau.

Darperir cymorth da i hyrwyddo iechyd corfforol ac iechyd meddwl y bobl. Mae'r cynlluniau personol yn cofnodi anghenion gofal iechyd y bobl a sut y dylid eu diwallu. Mae'r rheolwr a'r staff gofal yn gofyn am gyngor gan weithwyr iechyd proffesiynol pan fo angen, a chaiff apwyntiadau eu trefnu ar ran y bobl pan fo'n briodol. Mae'r staff gofal yn ymatebol i anghenion iechyd sy'n dod i'r amlwg ac mae'r rheolwr yn sicrhau y caiff camau gweithredu dilynol addas eu cymryd mewn perthynas â newidiadau i iechyd emosiynol neu gorfforol y bobl. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant sy'n berthnasol i bob agwedd ar anghenion y bobl, a cheir cyfathrebu effeithiol yn ystod cyfarfodydd tîm er mwyn sicrhau bod dulliau gweithredu cyson ar waith.

Mae systemau cadarn ar waith ar gyfer rhoi a storio meddyginiaeth. Mae trefniadau ar waith i roi meddyginiaeth yn ddiogel ac mae'r staff gofal yn ymgymryd â hyfforddiant ar feddyginiaeth. Mae'r rheolwr yn goruchwylio trefniadau'r gwasanaeth ar gyfer rheoli meddyginiaethau. Mae'r gwasanaeth yn hybu arferion hylan ac yn rheoli'r risg o haint.

## Yr Amgylchedd

Disgrifir yr adeilad a'r cyfleusterau yn y datganiad o ddiben. Mae'r bobl yn fodlon ar eu hystafelloedd gwely, sydd wedi'u personoli â'u heiddo a'u lluniau eu hunain. Mae dewisiadau ar gael o ran sut mae pob unigolyn yn dymuno i'w ystafell gael ei dodrefnu. Mae hyn yn creu naws gartrefol ac yn helpu'r bobl i setlo yn eu hamgylchedd.

Caiff yr amgylchedd ei gadw'n lân ac yn daclus, ac mae ystafelloedd gwely'r bobl a'r ardaloedd cymunedol wedi cael eu haddurno ers yr arolygiad diwethaf. Anogir y bobl i gadw eu hystafelloedd gwely yn lân, ac mae'r staff yn rhoi cymorth ymarferol iddynt wneud hynny pan fo angen.

Mae gardd i'r bobl ei defnyddio sy'n cynnig ardal ddymunol i eistedd ynddi â dodrefn gardd addas. Mae darparwr y gwasanaeth wedi creu ardal i'r staff ac ymwelwyr barcio, sydd wedi gwella hygyrchedd. Mae darparwr y gwasanaeth wedi llunio cynllun addurno ac adnewyddu parhaus, ac wedi nodi ardaloedd o'r cartref i'w gwella fel rhan o'r broses sicrhau ansawdd.

Caiff risgiau i iechyd a diogelwch eu rheoli'n briodol. Mae trefniadau ar waith i storio a pharatoi bwyd yn ddiogel. Caiff ymarferion ar gyfer gwagio'r adeilad os bydd tân eu cynnal, a chaiff y system larwm tân, y system gosodiadau trydanol, y boeler a'r dyfeisiau eu gwirio, fel sy'n ofynnol. Mae hyn yn golygu bod y bobl yn cael eu cefnogi mewn amgylchedd byw diogel.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae niferoedd priodol o staff gofal ar gael i sicrhau bod y bobl yn derbyn gofal a chymorth yn unol â'u hanghenion a threfniadau comisiynu'r awdurdod lleol.
Mae gan y gwasanaeth dîm craidd bach o staff hirsefydledig sy'n ymgymryd â'u rolau a'u cyfrifoldebau mewn ffordd wybodus ac sy'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y rheolwr. Maent yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd sy'n cynnwys trafodaethau un i un â'r tîm rheoli am eu llesiant a'u datblygiad proffesiynol, a chynhelir cyfarfodydd tîm rheolaidd. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau i gyflawni eu rolau yn effeithiol ac yn ddiogel.

Mae darparwr y gwasanaeth wedi gwneud yn siŵr bod trefniadau llywodraethu da ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn gweithredu'n ddiogel ac yn hwylus. Mae'r rheolwr yn brofiadol ac yn meddu ar gymwysterau addas, ac mae'n cael ei gefnogi gan yr Unigolyn Cyfrifol. Mae arferion a strwythurau sefydledig ar waith ynghyd â diwylliant pwyllog, cadarnhaol a magwrus. Roedd adborth gan y staff gofal yn cael ei gasglu drwy arolygon. Dywedodd un: *"Service users get to choose what they do and when they do it. It feels like a home not a care home."*

Caiff y gwasanaeth ei oruchwylio'n effeithiol. Mae prosesau monitro ac archwilio ar waith er mwyn cynnal ansawdd y gwasanaeth ac i sicrhau bod y bobl yn derbyn gofal a chymorth o safon dda. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn ffurfiol, bob tri mis i siarad â'r bobl, y staff gofal a'r rheolwr, ac i edrych ar y cofnodion er mwyn asesu ansawdd y gofal a ddarperir. Caiff adolygiad o ansawdd y gofal ei gwblhau bob chwech mis sy'n darparu dadansoddiad effeithiol o'r gwasanaeth, yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau, ac yn cael ei ddefnyddio fel sail ar gyfer datblygu a gwella'r gwasanaeth.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 15 | Nid yw'r cynlluniau personol yn ystyried dymuniadau, dyheadau nac anghenion gofal a chymorth personol y bobl. Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod cynlluniau personol yn cael eu llunio ar y cyd â'r unigolyn a'u bod yn adlewyrchu eu canlyniadau personol. | Cyflawnwyd |
| 16 | Er bod y cynlluniau personol yn cael eu hadolygu o fewn yr amserlen ofynnol, nid oes unrhyw wybodaeth sy'n dangos i ba raddau y mae'r bobl wedi cyflawni eu canlyniadau personol. | Cyflawnwyd |
| 44 | Mae angen ailaddurno'r neuadd ac ystafelloedd gwely'r bobl. Dylai darparwr y gwasanaeth sicrhau bod y cartref yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol. | Cyflawnwyd |
| 80 | Nid yw'r Unigolyn Cyfrifol wedi gwneud darpariaeth i sicrhau y caiff ansawdd y gofal a’r cymorth ei adolygu mor aml ag sy'n ofynnol. Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol adolygu ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir o leiaf bob chwe mis. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 17/10/2024